# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 27/04/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

| **Dyraniadau Cyllideb** |
|---|
| **C11 Mark Isherwood:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y dyraniadau cyllideb 2010-11 ar gyfer colegau addysg bellach yng Nghymru? OAQ(3)2795(FM) |
| **Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Y flwyddyn nesaf, bydd colegau addysg bellach yn cael £307 miliwn, sef cynnydd cyffredinol o 5.85 y cant. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol o £25 miliwn i helpu oedolion feithrin sgiliau ychwanegol ac estyn y rhaglen llwybrau at brentisiaethau. |
| **Blaenoriaethau Polisi** |
| **C12 Jonathan Morgan:** Beth yw blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad? OAQ(3)2791(FM) |
| **Y Prif Weinidog:** Byddwn yn parhau i ymdrechu i gyflawni ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un' a chael mwy o bwerau i'r Cynulliad, a byddwn hefyd yn chwilio am ffyrdd o ddatblygu economi Cymru. |
| **Pobl Hŷn** |
| **C13 Lorraine Barrett:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu pobl hŷn yn Ne Caerdydd a Phenarth? OAQ(3)2809(FM) |
| **Y Prif Weinidog**: Mae'r cynnydd da o ran ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn yn parhau. Drwy ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, yr ydym yn moderneiddio'r gofal sydd ei angen ar bobl hŷn. Mae cam arloesol wedi'i gymryd i ddiogelu buddiannau pobl hŷn drwy sefydlu'r comisiynydd pobl hŷn. |
| **Diwydiant Amaethyddol** |
| **C14 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y diwydiant amaethyddol? OAQ(3)2807(FM) |
| **Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn parhau i fod yn benderfynol o gyflawni fy ymrwymiadau 'Cymru'n Un' drwy weithio i sbarduno diwydiannau ffermio, godro, bwyd a physgodfeydd cynaliadwy, wedi sefydlu rhaglen i ddileu TB a chynllun i helpu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio yng Nghymru. |
| **Blaenoriaethau Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| **C15 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)2812(FM) |

**Y Prif Weinidog:** Ein blaenoriaeth yw gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion gan ymateb ar frys i'r pwysau ar gyllid cyhoeddus ar yr un pryd. Cynhaliais uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus yn ddiweddar, gan gyhoeddi bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi. Gwaith y bwrdd yw sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu harwain mewn ffordd ymarferol.